Annwyl Gwsmeriaid

**Swyddfa'r Post® Llandegla**
**Lleoliad blaenorol: Siop y Pentref, Llandegla, Wrecsam, LL31 3AG**

**Penderfyniad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

Rwyf yn ysgrifennu i gadarnhau bod gwasanaeth allanol Lletyol wedi'i sefydlu a'i fod wedi dechrau gweithredu ar 31 Awst 2017 o Siop Gymunedol Llandegla, Allt yr Efail, Llandegla, Wrecsam, LL11 3AW

Derbynion ni 1 ymateb unigol oddi wrth gynrychiolydd lleol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd yr adborth i gyd yn cefnogi ein cynlluniau gan fod y gymuned yn croesawu adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post yn Llandegla. Rwyf yn fodlon felly mai sefydlu gwasanaeth lletyol yw'r cam cywir i'w gymryd.

Ceir manylion pellach am y gwasanaeth newydd ar ddiwedd y llythyr hwn.

Medrwch weld copi o'r llythyr hwn hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Pan ewch i'r wefan gofynnir i chi roi cod y gangen: 573614

Diolch am ystyried ein cynigiad.

Yn gywir

**Sarah Cottrell**
**Rheolwr Ardal Gweithrediadau Rhwydwaith**

**Sut i gysylltu â ni:**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Llinell Gymorth I Gwsmeriaid:
03457 22 33 44
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments
**Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.**

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun terfynol ar-lein. I'w weld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.

| |
|---|
| Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: www. postofficeco.uk/transforming-post-office. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn archwilio eich cwyn ac yn rhoi ateb i chi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r mannau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth. |

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03452 66 01 15.**

**Manylion y gwasanaeth newydd:**

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Lletyol Llandegla**<br>Siop Gymunedol Llandegla<br>Allt yr Efail<br>Llandegla<br>Wrecsam<br>LL11 3AW<br><br>**Oriau agor arfaethedig**<br>Iau: 09:00 – 11:00 | **Gwasanaethau**<br>Mae ystod eang o wasanaethau ar gael. A wide range of services is available. Mae cwsmeriaid yn dal i fedru casglu budd-daliadau mewn arian parod drwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio dyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.<br><br>**Mynediad a chyfleusterau**<br>Mae gan Siop Gymunedol Llandegla ddrws llydan a stepiau yn y fynedfa ond mae ramp cludadwy ar gael ar gais. Tu mewn, mae dolen glyw a gofod ar gyfer cadair olwyn.<br><br>**Parcio**<br>Mae maes parcio ar darws y ffordd o Siop Gymunedol Llandegla.<br><br>**Llwybr**<br>Lleolir tua 150 metr o'r gwasanaeth blaenorol ar hyd tirwedd amrywiol. |